

Mae angen ymarferwyr creadigol i ddatblygu ymagweddau creadigol er mwyn cynyddu cyfranogiad disgyblion, a datblygu hyder, rhannu a dathlu'r amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu gyda disgyblion 13-18 oed.



Ysgol Sant Christopher ydy'r ysgol arbennigol fwyaf yng Nghymru sydd yn cynnig llawer o bethau rhyfeddol i ddisgyblion.

Ysgol Sant Christopher
Stockwell Grove
Wrexham
LL13 7BW
01978 346910

Ethos ein hysglol ydy: Os wyt yn dweud wrth blentyn, fe fydd yn anghofio. Os wyt yn dangos i blentyn, fe fydd, o bosib, yn cofio. Ond os wyt yn ymglymu plentyn, fe fydd yn deall. Ac, os mae'n mwynhau, fe fydd yn cofio. (Dihareb Tseineiaidd)

<https://st-christophers.wrexham.sch.uk>

Dyddiad Cau:

9yb Tachwedd 7^{ed} 2017

Dyddiad Cyfeliad:

Tachwedd 16^{fed} 2017

Prif ffurf celf / arfer gofynnol?

Rydym yn edrych am ddau ymarferwr creadigol sydd wedi eu hysbrydoli gan yr awyr agored, dulliau cyfathrebu a datblygu hyder eraill yn y maes yma. Felly, buasai'r ysgol yn croesawu ceisiadau oddi wrth ymarferwyr megis storiwyr, cerflunwyr, ymarferwyr ysgol goedwig, neu gyda phrofiad cerdd, drama neu ffilm. Bydd croeso i geisiadau gan ymarferwyr creadigol eraill sydd yn teimlo eu bod gyda syniadau ysbrydoledig a sgiliau yw cynnig i'r prosiect yma.

Ffocws y prosiect:

Sut gall y broses greadigol wella cyfranogiad disgyblion a datblygu eu hyder ac ymwybyddiaeth wrth ddefnyddio'r amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu?

Am bwyt ydym yn edrych?

Rydym yn edrych am ymarferwyr a fydd yn gallu cydweithio gyda disgyblion, athrawon, cymorthyddion a'r tim rheoli er mwyn hwyluso a galluogi proses dysgu creadigol i bawb sy'n ymglymedig. Person sy'n cael syniadau ysbrydoledig ac sy'n gallu tynnu creadigrwydd o eraill.

Ymarferwr sy'n hyblyg yn eu dull, yn gallu adeiladu amgylchedd cefnogol sydd hefyd yn rhoi grym. Rhywun sydd hefyd yn ddychmygus a chwilfrydig. Person bositif sydd, os bosib, gyda phrofiad a/neu ymwybyddiaeth o weithio gyda disgyblion gydag amrywiaeth o anhawsterau dysgu.

Ymarferwr sydd yn gallu gwneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael eisoes yn yr ysgol ac sydd yn gallu defnyddio'r amgylchedd o'u hamgylch yn fanteisiol ar gyfer y disgyblion. Bydd ganoch hefyd y sgiliau cynllunio, gwerthuso ac yn medru bod yn ymarferwr adlewyrchol.



Disgrifiad byr o'r prosiect:

Ysgol Sant Christopher ydy'r ysgol arbennigol fwyaf yng Nghymru sydd yn darparu ar gyfer disgyblion o 6 i 19 oed gydag anghenion addysgol arbennig ac anghenion dysgu ychwanegol. Ein harwyddair ydy 'Adeiladu Dyfodol'; mae staff a llywodraethwyr yr ysgol yn benderfynol eu bod yn darparu addysg o'r ansawdd uchaf bosib i'r disgyblion cyhyd a darparu ar gyfer anghenion unigol lle'r ydym yn adeiladu ar y sgiliau sydd yn anghenrheidiol ar gyfer eu dyfodol yn y gymuned. Rydym yn buddsoddi amser ac ymrwymiad helaeth yn natblygiad y cwricwlwm a hyfforddiant, adnoddau ysbrydoli disgyblion, codi safonau, gweithio yn agos gyda rhieni, cynhalwyr a'r gymuned. Mae'r ysgol hefyd yn gwerthfawrogi gweithio dan do ac yn yr awyr agored, yn berchen ar ganolfan Eco, ardal bwrpasol coedwig ysgol, canolfan anifeiliaid, salon harddwch, caffi masnach deg a mwy a pheth ohonynt yn cael eu rhedeg gan y disgyblion.

Yn ein blwyddyn gyntaf fel ysgol greadigol arweiniol rydym ni yn ysgol Sant Christopher yn gyffrous am gael y cyfle yma i adeiladu ar ein dull cynhwysol o addysgu, ac yn bwriadu cynhyddu llais/cyfranogiad disgyblion ac i'r disgyblion ddatblygu hyder yn null cyfathrebu eu hun ac ymwybyddiaeth o ddulliau cyfathrebu eraill (megis iaith lafar, BSL, Dynavox). Fe ragwelir y bydd y prosiect yn gyfle i ddefnyddio, rhannu a dathlu dulliau cyfathrebu amrywiol a ddefnyddi'r gan y disgyblion. Mae'r ysgol yn awyddus i ddefnyddio dulliau creadigol i alluogi hyn i ddigwydd. O fewn y thema o gyfathrebu a chyfranogiad, mae'r prosiect yn bwriadu cyfuno trawstoriad o ffurfiau celf a sgiliau i gydweithio gyda'r ymarferwyr a'r athrawon ar ddull sy'n canolbwyntio ar y plentyn er mwyn datblygu 'arferiad creadigol y meddwl'. Am fwy o wybodaeth ewch i:

<http://www.arts.wales/arts-in-wales/creative-learning/cynllun-yr-ysgolion-creadigol-arweiniol?diablo.lang=cym>

Rydym yn cynnig – cytundeb a ffioedd/treuliau:

Bydd ychydig o amser cynllunio taledig yn hwyr mis Tachwedd / gynnar mis Rhagfyr. Y bwriad ydy cychwyn y prosiect ym mis Ionawr 2018. Rydym yn rhagweld y bydd y swydd yn 1 diwrnod yr wythnos ar ddydd Iau 9 – 3:30 yn cynnwys cynllunio tim a gwerthuso (gydag ychydig o gynllunio hunan cyfeiriol tu allan i'r amser yma) am o leiaf 8 wythnos.

Bydd yr ymarferwyr creadigol yn cael eu contractio gan yr ysgol a bydd y manylion terfynol yn cael eu trafod gyda'r ymgeiswyr llwyddiannus. Mae'r ffioedd yn £250 y diwrnod. Mae gan yr ysgol adnoddau eang ar gael ond os oes angen adnoddau ychwanegol mae'n bosib y bydd cyllideb fach ar gael. Bydd bwyd a diod ar gael. Bydd pob apwyntiad yn ddibynadwy ar ymgeiswyr yn dioddef prawf DBS ac yn berchen ar yswiriant cyfrifoldeb cyhoeddus. Rhaid i'r ymgeiswyr llwyddianus fynychu rhaglen sefydlu a hyfforddiant i'r cynllun ysgol greadigol arweiniol gyda'r Cyngor Celfyddydau Cymru. Ni fydd tal ar gael ar gyfer yr hyfforddiant yma ond gellir ad-dalu costau teithio/llety rhesymol. Fe gynhelir yr hyfforddiant ar y 21^{ain} a 22^{ain} neu'r 23^{ain} a 24^{ain} o Dachwedd 2017 yn Llandudno.

Er mwyn ymgeisio rhaid blaenyrru'r canlynol:

- CV gyda llythyr eglurhaol
- Cyswllt i unrhyw wefannau/enghreifftiau o'ch gwaith
- Enw a manylion cysylltu 2 canolwr
- Paragraff byr ar gyfer y disgyblion yn disgrifio beth sydd yn gyffrous am eich gwaith creadigol

I: Delyth Harries, Asiant Creadigol. E-bost: delyth.harries@gmail.com

Dyddiad cau: 9yb, Tachwedd 7^{ed}. Bydd dewis y rhestr fer yn digwydd ar Dachwedd 7^{fed} gyda'r disgyblion. Oherwydd hyn ni fydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried. Os oes gennych unrhyw gwestiynau cysylltwch â Delyth ar 07538 114 896.

Galwad Ymarferwy Creadigol: Ysgol Sant Christopher, Wrecsam. Hydref 2017.



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales